



Arolygiad Dilynol ar gyfer Ysbyty (Dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr: Ysbyty Maelor
Wrecsam, yr Adran Argyfyngau

Dyddiad arolygu: 5 Rhagfyr
2017

Dyddiad cyhoeddi: 8 Mawrth 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.cymru
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom**Error! Bookmark not defined.**
2. Crynodeb o'n harolygiad**Error! Bookmark not defined.**
3. Yr hyn a ganfuom.....**Error! Bookmark not defined.**
 Ansawdd profiad y claf **Error! Bookmark not defined.**
 Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol **Error! Bookmark not defined.**
 Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth **Error! Bookmark not defined.**
4. Beth nesaf?**Error! Bookmark not defined.**
5. Sut yr ydym yn cynnal arolygiadau dilynol**Error! Bookmark not defined.**
 Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad**Error! Bookmark not defined.**
 Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith **Error! Bookmark not defined.**
 Atodiad C – Cynllun gwella..... **Error! Bookmark not defined.**

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld
- Cydweithredol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Mynegi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei weld i dylanwadu ar bolisi, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol dirybudd ar gyfer Adran Argyfyngau Ysbyty Maelor Wrecsam, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 5 Rhagfyr 2017.

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys un arolygwr AGIC, un adolygydd cymheiriad clinigol ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd yr ydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal digonol, diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth hefyd nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Dyma'r hyn a welsom fod y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y rhyngweithio rhwng staff a chleifion yn garedig, yn urddasol ac yn gwrtais
- Gwarchodwyd preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth iddynt dderbyn gofal a thriniaeth
- Roedd yr amgylchedd ar y cyfan yn ymddangos yn lân a thaclus
- Roedd uwch-aelodau o staff yn weladwy ac roeddent yn rhoi cyngor a chymorth i is-aelodau o staff

Dyma'r hyn a argymhellom y gallai'r gwasanaeth ei wella:

- Sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n ddiogel
- Gwella'r modd y caiff staff eu recriwtio a'u cadw
- Gwerthuso'n feirniadol a gweithredu strategaethau i adleoli cleifion sy'n eistedd mewn coridor wrth ddisgwyl am wely yn yr uned asesu
- Y berthynas waith gyda'r gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau
- Darparu trefniadau rheoli meddygol sy'n ddiogel, effeithiol a chyson i gleifion sy'n aros i gael eu derbyn i'r adran o ambiwlans

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Cynhaliodd AGIC ei arolygiad diwethaf o Adran Argyfyngau Ysbyty Maelor Wrecsam ar 30 Medi a 1 Hydref 2014.

Roedd y prif feysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn cynnwys:

- Gofal cleifion
- Llif cleifion
- Rheoli risg
- Y gweithlu
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Prif ddiben yr arolygiad hwn oedd mynd ar drywydd y themâu uchod a nodwyd yn yr [arolygiad diwethaf](#).

Rhoddyd hysbysiad sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd yn ystod yr arolygiad dilynol hwn. Nodwyd bod meddyginiaethau yn cael eu storio'n amhriodol mewn modd anniogel. Ceir manylion y cynllun gwella ar unwaith yn Atodiad B.

Ansawdd profiad y claf

Buom yn siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i ddull ein harolygiad.

Mae'r Adran Argyfyngau, sy'n cynnwys Uned Penderfyniadau Clinigol, yn adrannau prysur iawn yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Roedd yr Adran Argyfyngau a'r Uned Penderfyniadau Clinigol yn gweithio hyd gorau eu gallu y rhan fwyaf o'r amser. Roedd rhai cleifion wedi bod yn aros am amser sylweddol cyn cael mynediad i wardiau yn yr ysbyty.

Dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion oedd yn yr Adran Argyfyngau yn ystod ein harolygiad er mwyn clywed beth oedd eu barn am ansawdd y gofal roeddent wedi ei dderbyn. Cawsom bump holiadur wedi eu cwblhau gan gleifion yn yr adran.

Cafwyd adborth cadarnhaol yn yr holiaduron gan y cleifion am safon y gofal a'r driniaeth a gafwyd gan aelodau staff yr adran. Cytunodd cleifion fod aelodau'r staff yn garedig ac yn sensitif wrth ofalu a rhoi triniaeth iddynt a'u bod yn rhoi cymorth pan oedd ei angen.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan gleifion yn cynnwys:

"Roedd y staff yn wych ac yn brysur iawn"

"Triniaeth arbennig o dda gan y gweithwyr ambiwlans"

"Unwaith cefais fy ngweld, roedd y driniaeth yn wych. Yr amser aros a'r rhagarweiniad i'r driniaeth oedd yn anfodhaol"

Gofal ag urddas

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin mewn modd caredig ac urddasol yn ystod ein harolygiad. Roedd hyn i'w weld pan oedd cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth bersonol gan fod llenni preifat yn cael eu defnyddio i sicrhau urddas a phreifatrwydd y claf. Roedd y rhyngweithio rhwng aelodau staff a'r cleifion yn broffesiynol. Roedd llawer o'r staff yn siaradwyr Cymraeg, ac roedd hyn yn cael ei gyfrif yn bwysig iawn i gleifion oedd â'r Gymraeg yn famiaith iddynt.

Rhoddwyd holiaduron i aelodau'r staff i'w cwblhau gyda nifer o osodiadau yn ymwneud â gofal cleifion a gofynnwyd iddynt pa mor aml, yn eu profiad hwy, yr oedd y gosodiadau hynny yn berthnasol. Yn gyffredinol, cytunodd y rhan fwyaf o aelodau staff yr adran a gwblhaodd holiadur fod urddas a phreifatrwydd cleifion yn cael eu cadw yn yr adran, bod annibyniaeth cleifion yn cael ei hybu bob amser, a bod cleifion a/neu eu perthnasau yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau ynghylch eu gofal.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd adborth yn yr holiaduron yn dangos bod gan rai cleifion bryderon ynglŷn â'r diffyg trefn a chyfathrebu a gawsant tra oeddent yn aros i gael eu gweld ar ôl cyrraedd yr uned. Roedd sgriniau wedi eu gosod yn ystafell aros y cleifion lle byddai'n bosibl iddynt dderbyn gwybodaeth am amseroedd aros ac ymgyrchoedd iechyd cenedlaethol, ond roeddent wedi eu diffodd. Dywedodd uwch-aelodau o staff nad oeddent wedi bod yn gweithio ers peth amser oherwydd problem â'r feddalwedd.

Prin oedd y wybodaeth a oedd ar gael i gleifion yn ystafell aros yr Adran Argfyngau am hyrwyddo iechyd ac ymgyrchoedd iechyd cenedlaethol. Ychydig o wybodaeth oedd ar gael yn yr iaith Gymraeg yn yr ystafelloedd aros o'i chymharu ag adnoddau Saesneg fel posterï a thafleenni. Rydym yn argymhell bod y bwrdd iechyd yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hybu yn ei ysbytai a'i bod yn derbyn yr un statws â'r iaith Saesneg ynddynt.

Roedd system dolen cymhorthydd clyw ar gael i bobl oedd gyda phroblem clyw. Gwelsom mai cyhoeddiadau Iechyd Cyhoeddus Lloegr oedd peth o'r wybodaeth a oedd ar gael am iechyd cyhoeddus. Rydym yn argymhell bod y bwrdd iechyd yn adolygu'r tafleenni sydd ar gael i sicrhau mai dogfennau GIG Cymru / Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r prif adnoddau a ddefnyddir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Gwerthuso a gwella dulliau effeithiol o gyfathrebu â chleifion ynglŷn ag amseroedd aros.

Gwella adnoddau gwybodaeth i gleifion yn y man aros.

Gwerthuso'r tafleenni sy'n cael eu defnyddio gan y bwrdd iechyd i sicrhau mai adnoddau GIG Cymru / Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r brif ffynhonnell a ddefnyddir pan fônt ar gael.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu a gwella'r adnoddau cyfrwng Gymraeg sydd ar gael a sicrhau bod y Gymraeg yn cael yr un sylw â'r

Saesneg.

Gofal amserol

Fel y dywedwyd eisoes, roedd yr adran yn brysur iawn ac roedd rhaid i gleifion aros am amser sylweddol cyn cael mynediad i'r wardiau perthnasol yn yr ysbyty. Fodd bynnag, gwelsom fod yr holl gleifion oedd yn aros yn derbyn gofal ac yn cael eu trin mewn modd proffesiynol. Ar ddiwrnod ein hymweliad, ni welsom unrhyw oedi wrth drosglwyddo cleifion o'r ambiwlans i'r adran.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hyrwyddo annibyniaeth

Ar y cyfan, gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu llenwi i safon foddhaol. Roedd asesiadau risg ar gyfer manau gwasgu yn cael eu cwblhau yn drwyadl ac i safon uchel. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd asesiadau poen wedi cael eu cwblhau mewn modd cadarn a chynhwysfawr.

Roedd llawer o wybodaeth berthnasol a chyfredol am bwysigrwydd adnabod symptomau cynnar asepsis ar gael yn yr adran. Gwelsom aelodau o'r staff yn gofalu am glaf dryslyd mewn modd tawel ac ystyriol, gan sicrhau y cedwir urddas y claf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd atgoffa aelodau'r staff o bwysigrwydd cynnal asesiadau poen a'u hailwneud yn dilyn ymyriad neu ddarparu analgesia.

Gwranddo a dysgu o adborth

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod system electronig ar gael i gleifion gyflwyno adborth am eu profiad o fod yn yr Adran Argyfyngau. Dywedwyd wrthym fod y wybodaeth hon yn cael ei hadolygu'n aml ac y gweithredir yn unol â hynny lle bo'n briodol. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw wybodaeth ynglŷn â

sut i leisio pryder neu gŵyn ynghylch GIG Cymru, sef '[Gweithio i Wella](#)'.¹ Gwnaethom argymhell y dylid arddangos y broses ar gyfer codi pryderon/cwynion gan gleifion y GIG mewn lleoedd amlwg o gwmpas yr adran a bod hon yn cynnwys y manylion cyswllt angenrheidiol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r cyngor iechyd cymuned.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am broses GIG Cymru ar gyfer mynegi pryder neu gŵyn, 'Gweithio i Wella', ar gael i'r holl gleifion.

¹ 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Ystyr pryderon yw materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion a, mewn perthynas â chyrrff GIG Cymru, hawliadau ynglŷn â gwasanaethau a ddarperir gan y rhai sy'n gyfrifol yng Nghymru.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried y graddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, gwelsom gleifion yn cael gofal a thriniaeth effeithiol gan dîm ymroddgar o staff a oedd yn gweithio hyd eithaf eu gallu mewn amgylchiadau anodd.

Nodwyd diffygion sylweddol wrth reoli meddyginiaethau, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r bwrdd iechyd weithredu ar unwaith.

Gwnaethom nodi ymarfer a allai fod yn anniogel wrth i gleifion dderbyn goruchwyliaeth annigonol ac wrth iddynt orfod eistedd ar gadeiriau mewn coridor oherwydd prinder gwelyau yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol.

Gofal diogel

Aed i'r afael â'n pryderon ynghylch rheoli meddyginiaethau drwy ein proses sicrwydd brys. Roedd hyn yn golygu inni ysgrifennu at y bwrdd iechyd yn syth ar ôl yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd camau gweithredu adferol ar fyrder. Ceir manylion y gwelliannau brys a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn ystod ein hymweliad, roedd yr Uned Penderfyniadau Clinigol yn llawn dop ac, o'r herwydd, roedd rhaid i rai cleifion eistedd y tu allan i'r uned ar gadeiriau mewn coridor. Dywedodd y staff wrthym fod hyn ymhell o fod yn arfer gorau ond, ar y pryd, nid oedd ganddynt ddewis gan nad oedd unrhyw welyau eraill ar gael ar eu cyfer. Cawsom wybod gan uwch-reolwyr fod y cleifion a oedd yn gorfod eistedd y tu allan i'r uned yn cael eu monitro'n gyson. Fodd bynnag, gwnaethom nodi, o ganlyniad i natur brysur yr adran, nad oedd y cleifion hyn yn cael eu goruchwyllo yn ddigonol. Roedd yr ymarfer yn anniogel ac roedd yn arwain at berygl posibl i'r cleifion. Gwnaethom godi'r mater hwn ag uwch-reolwyr yn ystod ein sesiwn adborth a chawsom wybod bod y bwrdd iechyd yn ymwybodol o'r risg hon a'i fod yn ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â hi. Rydym yn

argymell bod y bwrdd iechyd yn blaenoriaethu'r elfen hon o reoli gofal fel maes sydd angen sylw a gwelliant ar frys.

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom drafod y gwaith o reoli a gofal am gleifion a oedd yn profi oedi wrth gael eu symud oddi ar ambiwlans o ganlyniad i brinder gwelyau yn yr Adran Argyfyngau. Gwnaethom nodi bod ymarfer anghyson, gyda rhai aelodau o'r staff meddygol yn mynd allan at yr ambiwlans i gynnal asesiadau a dechrau rhoi triniaeth i gleifion ac eraill yn amharod i fynd allan. Cawsom wybod mai'r rheswm dros yr anghysondeb hwn oedd dewisiadau ymarferwyr meddygol unigol. Rydym yn argymell y dylid sefydlu protocol ffurfiol yn gyffredinol ar draws adrannau argyfyngau'r bwrdd iechyd. Bydd hwn yn sicrhau y cynhelir ymarfer safonol yn gyson heb fod yn ddibynnol ar ddewisiadau unigol ymarferwyr meddygol.

Fel rhan o'n harolygiad, gwnaethom adolygu'r troli dadebru a ddefnyddiwyd yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol. Gwnaethom nodi bod y troli wedi'i stocio'n dda a bod digon o offer i ymdopi â chymau cychwynnol argyfwng. Gwnaethom nodi ei bod yn bolisi gan yr uned a'r bwrdd iechyd i wirio'r troli bob dydd. Fodd bynnag, roedd y cofnodion a welsom yn dangos nad oedd hyn yn digwydd yn ddyddiol. Roedd y cofnodion yn dangos bylchau lle nad oedd yr offer a'r stoc wedi'u gwirio. Cafodd hyn ei ddwyn i sylw metron yr Adran Argyfyngau ar ddiwrnod ein hymweliad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd ddarparu cynllun gweithredu i AGIC yn manylu sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r arfer presennol lle bo rhaid i gleifion aros gan eistedd ar gadeiriau y tu allan i'r Uned Penderfyniadau Clinigol am ofal a thriniaeth pan nad oes gwelyau ar gael.

Mae angen i'r bwrdd iechyd weithredu protocolau safonol ar draws yr holl safleoedd priodol er mwyn sicrhau bod cleifion nad ydynt yn gallu gadael ambiwlans oherwydd prinder gwelyau gwag mewn ysbyty yn derbyn asesiadau a gofal cyson.

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod troliâu dadebru mewn argyfwng yn cael eu gwirio yn ddyddiol a bod y staff yn dogfennu hyn yn unol â hynny.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod cyfleusterau golchi dwylo addas ar gael trwy gydol yr Adran Argyfyngau. Roedd peiriannau dadheintio dwylo a chyfarpar diogelu personol digonol ac roedd y rhain wedi'u lleoli o amgylch yr ardaloedd clinigol yn bennaf.

Gwelsom fod y staff yn gweithio'n ddiflino i hybu ymarfer effeithiol a diogel o atal a rheoli heintiau. Gwelsom fod aelodau staff domestig a glanhawyr yn ymgymryd â'u dyletswyddau mewn modd cywir a thrylwyr. Gwelsom rai meysydd yr oedd angen eu gwella. Yn enwedig, roedd golchfa wedi'i lleoli yn y brif ardal â chomodau heb unrhyw wybodaeth arnynt i ddweud a oeddent wedi'u diheintio ar ôl cael eu defnyddio ai peidio. Gwnaethom hefyd nodi bod y tanc dŵr yn gollwng ac ymddengys fod jygiau yn cael eu defnyddio i ddal y dŵr a oedd yn gollwng. Roedd gormod o ddillad budur yn y bagiau ymolchi ac roedd angen eu gwacáu. Gwnaethom hefyd nodi bod cadeiriau olwyn a ddefnyddid wedi rhwygo. Mae angen i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r holl faterion a grybwyllwyd uchod, a hynny mewn modd diogel ac effeithiol er mwyn hybu a diogelu cleifion a staff rhag heintiau posibl a geid o'r ysbyty.

Yr hyn y mae angen ei wella

Yr holl gomodau i ddangos yn glir a ydynt wedi cael eu diheintio ar ôl eu defnyddio.

Angen adfer y tanc dŵr sy'n gollwng.

Angen gwacáu'r biniau dillad budron mewn modd amserol.

Angen i'r holl gadeiriau olwyn a ddefnyddir fod yn addas at y diben.

Maeth a hydradu

Cawsom wybod bod gofynion dietegol cleifion yn cael eu bodloni wrth aros yn yr Adran Argyfyngau. Cawsom wybod y darperir tri phryd poeth ar gyfer y cleifion sydd angen hynny. Roedd cegin fach ar gael ac yn cael ei defnyddio drwy gydol ein hymweliad i roi bwyd a diodydd poeth i'r cleifion.

Rheoli meddyginiaethau

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom werthuso'r modd y caiff meddyginiaethau eu rheoli'n ddiogel yn yr Adran Argyfyngau a'r Uned Penderfyniadau Clinigol. Ar y cyfan, nid oedd y safonau'n dderbyniol ac, o'r herwydd, cyflwynwyd llythyr gwelliant brys i'r bwrdd iechyd, y gellir gweld ei fanylion yn Atodiad B.

Gwelsom fod yr inswlin a'r analgesia yn cael eu storio mewn modd amhriodol mewn cwprdd nad oedd yn cael ei gloi. Gwnaethom ddwyn y materion hyn i sylw'r fetron ar unwaith, a aeth i'r afael â'r meysydd hyn yn brydlon. Roedd angen i AGIC fod yn fodlon bod camau priodol wedi'u cymryd. Gwnaethom gyflwyno llythyr gwelliant brys i'r bwrdd iechyd er mwyn hybu arferion diogel yn y bwrdd iechyd.

Yn ogystal â'r diffygion hyn, gwnaethom nodi nad oedd y feddyginiaeth a gadwyd yn yr oergell yn cael ei chadw mewn modd diogel a than glo. Roedd hyn gan nad oedd yr oergell yn cael ei chloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio. Gwnaed ymdrech i ganfod yr allwedd a oedd yn cloi'r oergell ond roedd yr ymdrechion hyn yn aflwyddiannus. O ganlyniad, gwnaed ymdrech i newid y clo ar yr oergell ond arweiniodd hyn at yr oergell yn cael ei chondemnio.

Gwnaethom adolygu sampl o'r cofnodion gweinyddu meddyginiaethau a gwelsom fod y rhain wedi'u cwblhau i safon foddhaol, gan gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yr oedd ei hangen. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd gan rai cleifion a oedd yn derbyn ocsigen, y mae'n rhaid ei ragnodi, gofnodion rhagnodi ffurfiol ar ei gyfer.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob oergell sy'n cynnwys meddyginiaethau ar draws holl safleoedd y bwrdd iechyd yn cael ei chloi pan nad yw'n cael ei defnyddio gan y staff.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ocsigen yn cael ei ragnodi'n briodol yng nghofnodion y cleifion a bod hyn yn cael ei nodi yng nghofnodion gweinyddu meddyginiaethau'r cleifion.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwnaethom werthuso'r system bresennol lle mae cleifion sydd heb anafiadau/salwch sy'n peryglu eu bywyd yn cael eu rhyddhau i ofal y gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau sy'n cael ei weithredu yn yr adran. Gwnaethom nodi bod protocol ar waith a oedd yn nodi set o gleifion y gellid eu rheoli'n ddiogel gan y gwasanaeth y tu allan i oriau. Yn anffodus, nid oedd y gwasanaeth hwn yn gweithredu yn effeithiol. Roedd nyrs brysbennu yn gyfrifol am asesu cleifion a phenderfynu (yn unol â'r protocol y cytunwyd arno) a ellid cyfeirio'r cleifion hyn at y gwasanaeth y tu allan i oriau i gael triniaeth bellach. Gan hynny, roedd disgwyl i'r nyrs brysbennu ddarparu trosglwyddiad llafar cynhwysfawr i'r meddyg teulu yn y gwasanaeth y tu allan i oriau. Golygodd hyn nad oedd y nyrs yn gallu brysbennu cleifion eraill a allai fod yn aros. Arweiniodd hyn at oedi posibl i gleifion sydd ag anafiadau/salwch sylweddol o gael asesiad amserol.

Cawsom wybod am fenter arloesol newydd yr oedd yr adran yn ei chynllunio, sef creu ystafell dementia-gyfeillgar. Roedd cynlluniau ar droed i ddatblygu ystafell a fyddai'n darparu amgylchedd braf i gleifion â dementia. Gobaith yr

arloesedd newydd hwn yw gwneud eu hymweliad â'r adran yn achlysur llai straenus.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd werthuso'r systemau presennol ar gyfer cyfeirio cleifion at y gwasanaeth y tu allan i oriau a chymryd camau fel y bo'n briodol i hybu asesiad amserol ar gyfer cleifion eraill yn y cyfnod brysbennu.

Cadw cofnodion

Ar y cyfan, gwnaethom nodi bod cofnodion cleifion wedi'u cwblhau i safon foddhaol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd rhai o'r staff meddygol yn cwblhau cofnodion mewn modd strwythuredig a chadarn. Gwnaethom nodi sawl enghraifft o gofnodion cleifion nad oeddent yn cynnwys yr amser.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff i gynnwys yr amser wrth lenwi cofnodion cleifion a chyflwyno strategaethau priodol i fonitro'r maes hwn o ran cadw cofnodion, gan sicrhau ymarfer cadarn a chynhwysfawr.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut y caiff gwasanaethau eu rheoli a'u harwain ac a yw diwylliant y gweithlu a'r sefydliad yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut y mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hun yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd uwch-nyrsys a metron yr adran yn gweithio'n ddiflino i hybu gofal a thriniaeth ddiogel ac effeithiol i gleifion yn yr adran.

Roedd yr adran yn profi lefelau uchel o swyddi gwag ac, o'r herwydd, roedd yn angenrheidiol dibynnu ar staff asiantaeth i raddau helaeth.

Llywodraethant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Yn ystod ein hymweliad arolygu, gwnaethom siarad â nifer o aelodau staff a oedd yn gweithio mewn gwahanol swyddi, ac roedd yr holl staff yn siarad yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth a ddarperid gan brif nyrsys a metron yr adran. Roedd y staff yn teimlo'n gyfforddus yn codi unrhyw bryderon/materion â'r uwch-aelodau staff. Gwnaethant nodi y byddai eu pryderon yn derbyn ymateb a oedd yn adeiladol ac yn brydlon.

Gwnaethom nodi yn ystod ein trafodaethau ag uwch-aelodau staff fod gan yr Adran Argyfyngau 7.2 swydd nyrsio wag cyfystyr ag amser llawn. Cawsom wybod bod swyddi gwag eraill o ganlyniad i absenoldeb mamolaeth. Cawsom wybod hefyd fod swyddi gwag o ran staff meddygol y sefydliad. O ganlyniad, roedd yr adran wedi dod yn ddibynnol iawn ar ddefnyddio staff nyrsio o asiantaeth i gyflenwi rotas. Enghraifft glir o hyn yw mewn perthynas â'r sifft nos ar 4 Rhagfyr 2017. Nodwyd mai'r nifer arferol o nyrsys cymwys a oedd eu hangen ar gyfer sifft nos oedd 12 o nyrsys cymwys. Ar gyfer yr un noson benodol hon, defnyddiwyd chwech o nyrsys asiantaeth i sicrhau bod digon o staff yn gweithio. Mae hyn yn effeithio'n sylweddol ar aelodau parhaol o staff gan ei fod yn cynyddu eu llwyth gwaith gan fod ganddynt gyfrifoldebau ychwanegol am rai elfennau o ofal a thriniaeth cleifion. Er enghraifft, dim ond aelodau parhaol o staff a oedd yn gallu cael y feddyginiaeth o'r system feddyginiaeth electronig. Ategwyd y ffaith fod hon yn broblem gan yr ymatebion a gafwyd mewn holiaduron a gwblhawyd gan staff. Dywedodd y staff nad oeddent bob amser yn gallu diwallu'r holl ofynion gwrthdaro yn ystod eu hamser

yn y gwaith, a dywedwyd mai weithiau yn unig, os hynny, yr oedd digon o staff yn y sefydliad i allu gwneud eu swydd yn iawn. At hynny, gofynnwyd i'r staff mewn holiaduron a oeddent yn cytuno ynteu'n anghytuno yn gyffredinol fod eu swydd yn dda i'w hiechyd. Roedd y staff yn anghytuno'n helaeth â'r datganiad hwn. Dywedodd y staff wrthym yn yr holiadur sut yr oedd eu swydd wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd a'u llesiant. Dywedodd un aelod o staff:

“Rwy'n teimlo'n aml fy mod yn mynd adref dan straen neu'n ddigalon ar ôl gwaith oherwydd y pwysau a'r galw cynyddol ar y staff a'r adran.”

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddadansoddi'r maes hwn o reoli staff yn feirniadol a chyflwyno mesurau effeithiol er mwyn recriwtio staff parhaol a hybu llesiant staff.

Gofynnwyd i'r staff yn yr holiadur am eu rheolwr uniongyrchol, ac roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol iawn. Roedd yr holl aelodau staff yn cytuno bod eu rheolwr yn annog gwaith tîm ac y gellid dibynnu bob amser ar eu rheolwr i'w helpu â thasg anodd yn y gwaith. Dywedodd bron bob un o'r staff wrthym yn yr holiadur fod eu rheolwr bob amser yn rhoi adborth clir am eu gwaith, yn gofyn iddynt am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith, ac yn gefnogol bob amser mewn argyfwng personol. Rhoddodd y staff yr adborth a ganlyn yn yr holiadur am eu rheolwyr ac am waith tîm yr Adran Argyfyngau:

“Mae'r fetron yn gefnogol iawn ac mae am weld y gorau i'w staff a'r adran. Mae'n hawdd siarad â hi ac mae'n gofalu am ei staff.”

“Mae tîm yr Adran Argyfyngau yn gweithio'n arbennig o dda â'i gilydd. Maent yn gefnogol iawn o'i gilydd ac mae pob graddfa yn cyfrannu at bob sifft.”

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff eu bod fel arfer yn gwybod pwy oedd yr uwch-reolwyr yn y sefydliad. Roedd chwech o'r naw aelod staff a gwblhaodd holiadur yn credu nad oedd uwch-reolwyr ond yn ymroddedig i ofal cleifion ar brydiau. Roedd y staff yn teimlo bod cyfathrebu yn effeithiol weithiau rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff ond roeddent yn teimlo nad oedd yr uwch-reolwyr bob amser yn cynnwys y staff wrth wneud penderfyniadau pwysig nac yn ymateb i adborth y staff.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno bod eu sefydliad yn eu hannog i adrodd am gamgymeriadau, methiannau agos neu ddigwyddiadau, ac roeddent yn

cytuno, pan gawsant eu hadrodd, fod y sefydliad yn gweithredu i sicrhau nad oeddent yn digwydd eto.

Ar y cyfan, roedd y staff yn cytuno bod y sefydliad yn trin y staff sy'n rhan o gamgymeriad, methiant agos neu ddigwyddiad mewn modd teg, a bod y sefydliad yn trin unrhyw gamgymeriad, methiant agos neu ddigwyddiad a adroddir mewn modd cyfrinachol.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod eu sefydliad yn gweithredu yn deg o ran cynnydd gyrfaoel neu ddyrchafiad, heb ystyried cefndir ethnig, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd nac oed.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi cynllun gweithredu i AGIC yn dadansoddi'n glir sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â diffygion staff yn yr Adran Argyfyngau yn Ysbyty Maelor Wrecsam.

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Yn ystod ein harolygiad, dywedodd staff eu bod wedi ymgymryd ag ystod eang o sesiynau hyfforddiant neu sesiynau dysgu a datblygu tra oeddent yn yr ysbyty. Yn ddiweddar, yn y 12 mis diwethaf, roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân, rheoli heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a dementia/deliriwm. Dywedodd un aelod o'r staff:

“Mae'r hyfforddiant yn eithaf da yn y maes hwn.”

Dywedodd y rhan fwyaf o'r aelodau staff a gwblhaodd yr holiadur fod yr hyfforddiant neu'r dysgu a datblygu y maent yn ymgymryd â hwy yn eu helpu i wneud eu swydd yn effeithiol.

Dywedodd saith o'r naw aelod o staff a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol ac adolygiad datblygu o'u gwaith yn y 12 mis diwethaf. Lle nodwyd anghenion hyfforddi, dysgu a datblygu yn y cyfarfodydd hyn, dywedodd y staff wrthym yn yr holiaduron fod eu rheolwr yn eu cefnogi i ddiwallu'r anghenion hyn.

Gwelwyd o drafod â'r staff eu bod yn gwybod beth a ddisgwyliid ohonynt ac roeddent yn hyderus yn yr ystod o gyfrifoldebau a thasgau yr oedd gofyn iddynt eu cwblhau. Dywedodd y staff wrth y tîm arolygu y gallent gael mynediad at

hyfforddiant priodol i gwmpas ymarfer eu gwaith. Cefnogwyd staff nyrsio i gwblhau eu haiddilysiad gyda'r Cyngor Bydwagedd a Nyrsio gan yr ysbyty.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn cael eu harfarniad blynyddol mewn modd amserol.

4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut yr ydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd bob amser gan fod hyn yn ein galluogi i weld y gwasanaeth yn y ffordd y mae'n gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw cyn arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad â rhybudd, gan olygu bod y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd cyn yr arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw canfod pa welliannau y mae'r gwasanaeth wedi'u gwneud ers ein harolygiad blaenorol.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar feysydd penodol i'w gwella, a nodwyd gennym yn yr arolygiad blaenorol. Mae hyn yn golygu y byddwn yn canolbwyntio yn unig ar y safonau yn [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) sy'n berthnasol i'r meysydd hyn.

Yn ystod ein harolygiadau dilynol, byddwn yn ystyried elfennau perthnasol mewn perthynas ag:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Mae adborth ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol. Byddwn hefyd yn amlygu unrhyw feysydd eraill y mae angen gwneud gwelliannau ar eu cyfer.

Ceir rhagor o wybodaeth am [ysut y mae AGIC yn arolygu'r GIG](http://hiw.org.uk/docs/hiw/guidance/170328inspectnhscy.pdf) <<http://hiw.org.uk/docs/hiw/guidance/170328inspectnhscy.pdf>> ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen i'r pryderon hyn dderbyn sylw ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y datrwyd y pryder
Aed i'r afael â'r pryderon uniongyrchol a nodwyd yn yr arolygiad hwn drwy ddefnyddio'r cynllun gwella ar unwaith (Atodiad B).			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Yr Adran Argyfyngau, Ysbyty Maelor Wrecsam

Dyddiad yr arolygiad: 5 Rhagfyr 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Canfyddiad</p> <p>Ystyriodd y tîm arolygu'r trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn yr Adran Argyfyngau.</p> <p>Yn ystod yr arolygiad, canfuom nad oedd meddyginiaeth yn cael ei storio yn briodol ac yn ddiogel yn yr adran. Nodwyd bod inswlin ac analgesia yn cael eu storio yn amhriodol mewn cwpwrdd heb ei gloi.</p> <p>Yr hyn y mae angen ei wella</p> <p>Mae gofyn i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i sicrhau bod y meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel yn</p>	Safon 2.6	<p>Adrannau argyfyngau</p> <p>Mae gan y tair adran argyfyngau gyfleusterau priodol i storio meddyginiaethau'r ysbyty yn ddiogel.</p> <p>Cam gweithredu 1: Atgoffa'r staff ar unwaith bod rhaid i feddyginiaethau cleifion gael eu cadw mewn cwpwrdd dan glo</p>	<p>Metron Adran Argyfyngau Ysbyty Maelor Wrecsam</p> <p>Pennaeth Nyrsio – Gofal</p>	<p>Cwblhau ar unwaith</p> <p>Ar unwaith i'r Adran</p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>yr Adran Argyfyngau ac ar wardiau ac adrannau eraill ar draws y bwrdd iechyd.</p> <p>Rhaid rhoi ystyriaeth i ddilyn yr Hysbysiadau Diogelwch Cleifion canlynol:</p> <p>Hysbysiad Diogelwch Cleifion 015 / Gorffennaf 2015 Storio meddyginiaethau: Oergelloedd</p> <p>Hysbysiad Diogelwch Cleifion 030 / Ebrill 2016 Storio meddyginiaethau'n ddiogel: Cypyrddau</p>		<p>Cam gweithredu 2: Archwiliad dirybudd wythnosol ar gydymffuriad ar gyfer mis pellach yn Adran Argyfyngau Ysbyty Maelor Wrecsam</p> <p>Cam gweithredu 3: Atgoffa pob ward/adran drwy gyfarfodydd diogelwch dyddiol a sesiynau briffio diogelwch y ward ar gyfer yr wythnos nesaf o ofynion y weithdrefn gywir ar gyfer rheoli meddyginiaeth y cleifion eu hun</p> <p>Cam gweithredu 4: Gwiriadau dirybudd gan y fetron ar gyfer pob ward/adran o fewn 48 awr i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir a bod y gofynion gweithdrefnol o dan Hysbysiad Diogelwch Cleifion 15 a Hysbysiad Diogelwch Cleifion 030 yn cael eu bodloni</p> <p>Cam gweithredu 5: Cwblhau cynllun</p>	<p>heb ei Drefnu</p> <p>Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Nyrsio</p> <p>Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Nyrsio</p> <p>Prif Fferylllydd Cyfarwyddwr Ystadau</p>	<p>Argyfyngau a chwblhau mewn pedair wythnos erbyn 5 Ionawr</p> <p>Ar unwaith, i'w gwblhau erbyn 18 Rhagfyr 2017</p> <p>Ar unwaith, i'w gwblhau erbyn 18 Rhagfyr 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		prosiect i fynd i'r afael â gofynion strwythurol (e.e. goleuadau a'r tymheredd) a nodwyd yn dilyn teithiau gwirio cynhwysfawr i arsylwi'r modd o storio meddyginiaethau ym mis Hydref ac ym mis Tachwedd ar draws pob safle		Cwblhau'r cynllun erbyn diwedd Ionawr i'w gyflwyno yn y Gweithio I Wellafis Chwefror

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Adran Argyfyngau, Ysbyty Maelor Wrecsam

Dyddiad yr arolygiad: 5 Rhagfyr 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
<p>Gwerthuso a gwella dulliau effeithiol o gyfathrebu amseroedd aros i gleifion.</p> <p>Gwella adnoddau gwybodaeth ar gyfer cleifion yn yr ardal aros.</p> <p>Gwerthuso'r pamffledi a ddefnyddir o fewn y bwrdd iechyd i sicrhau bod adnoddau GIG Cymru / Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu defnyddio fel prif ffynhonnell pan fo'n bosibl.</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wella a datblygu'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un fath â'r</p>	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	<p>Rhagfyr 2017</p> <p>Cyfarfu'r Pennaeth Nyrsio ar gyfer Meddyginiaethau â Matron yr Adran Argyfyngau ar 20 Rhagfyr 2017</p> <p>Cynhaliwyd gwerthusiad ar wybodaeth cleifion eisoes.</p> <p>Ionawr 2018</p> <p>Cwrdd â Matron yr Adran Argyfyngau ar 17 Ionawr 2018 a gwneud trefniadau i gyfieithu'r holl bosteri gwybodaeth i'r Gymraeg.</p>	Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth / Pennaeth Nyrsio	Diwedd Mawrth 2018

Comment [G1]:

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Saesneg.		<p>Mawrth 2018</p> <p>Mae Sgriniau Gwybodaeth Amser Aros i Ymwelwyr bellach wedi'u harchebu.</p> <p>Dirprwy Reolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth dros Feddyginiaeth ar y cyd ag aelod staff Band 6 o'r Adran Argyfyngau i gynnal arolwg cleifion i ganfod pa wybodaeth yr hoffai'r cleifion ei gweld ar y system.</p>		
Rydym yn argymhell bod y bwrdd iechyd yn atgoffa'r holl staff am bwysigrwydd cynnal asesiadau poen a'u hailwneud yn dilyn ymyriad neu analgesia.	6.1 Cynllunio gofal i hyrwyddo annibyniaeth	Cyflwyno siartiau arsylwi arwyddion hanfodol diwygiedig yn dilyn hyfforddiant ymwybyddiaeth – monitro poen i ffurfio rhan o asesiad cyffredinol y claf.	Y Pennaeth Nyrsio / Metron	Canol Chwefror 2018
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd i bob claf ynghylch proses GIG Cymru ar gyfer codi pryderon neu wneud cwyn – 'Gweithio i Wella'.	6.3 Gwrando a dysgu o adborth	<p>Ciosg adborth i gleifion ar gael ger mynedfa/allanfa'r Adran Argyfyngau.</p> <p>Mae pum poster yn cynnwys gwybodaeth Gweithio I Wella wedi cael eu gosod o amgylch yr adran.</p>	Metron yr Adran Argyfyngau	Wedi'i gwblhau

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae taflenni gwybodaeth Gweithio I Wella wedi cael eu darparu yn yr Adran Argyfyngau yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae gwybodaeth ynghylch gwneud cwyn i'r bwrdd iechyd wedi'i chrynhoi ac mae wrthi'n cael ei gyfieithu i'r Gymraeg (26 Ionawr 2018 yw'r dyddiad dychwelyd y gofynnir amdano).</p>		
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
<p>Y bwrdd iechyd i ddarparu cynllun gweithredu i AGIC yn manylu sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael ag arfer presennol lle bo rhaid i gleifion aros ar gadeiriau y tu allan i'r Uned Penderfyniadau Clinigol am ofal a thriniaeth pan nad oedd gwelyau ar gael.</p> <p>Y bwrdd iechyd i weithredu protocolau safonol ar draws yr holl safleoedd priodol ar gyfer rhoi asesiadau a gofal sy'n gyson a safonol i gleifion na allent gael eu trosglwyddo o ambiwlans oherwydd nad oes gwelyau ar gael yn yr ysbytai.</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch</p>	<p>Drafft o achos busnes ar gyfer hwyluso cofrestru â meddyg teulu yn yr Uned Aseu Feddygol.</p> <p>Defnyddio dogfen Proses Weithredu Uwchgyfeirio Lleol (LEAP) ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i sicrhau'r gallu i gyfeirio cleifion, gan eu rhoi mewn ardaloedd aros mewn amseroedd o bwysau eithriadol.</p>	<p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty / Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth</p>	<p>Mawrth 2018</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Y bwrdd iechyd i sicrhau bod trolis dadebru brys yn cael eu gwirio'n ddyddiol a bod y staff yn dogfennu hyn yn briodol.</p>		<p>Archwiliad ar waith i fonitro cydymffurfiaeth a gwirio trolis yn gywir.</p> <p>Mae archwiliad wythnosol yn gwirio trolis brys yn Adran Argyfyngau Ysbyty Maelor Wrecsam wedi dangos gwelliant – fodd bynnag, mae anghysonderau yn achlysurol â'r gwiriadau dyddiol. Parhau â gwirio cydymffurfiaeth yn wythnosol.</p> <p>Mae polisi adfywio cardio-pwlmonaidd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (gweler isod) yn nodi amllder gwiriadau a chyfrifoldebau staff. Mae'r tîm adfywio yn cwblhau archwiliadau ar draws y bwrdd iechyd i sicrhau cydymffurfiaeth wrth wirio trolis, os bydd amllder archwiliadau ardal o ddiffyg cydymffurfio yn cynyddu.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio / Metron yr Adran Argyfyngau</p> <p>Y Tîm Adfywio</p>	<p>Archwiliad ar waith (wythnosol)</p> <p>Parhaus</p>
<p>Yr holl gomodau i nodi'n glir a ydynt wedi cael eu diheintio ar ôl eu defnyddio.</p> <p>Biniau dillad budron i gael eu gwacáu mewn modd amserol.</p>	<p>2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio</p>	<p>Amserlen lanhau ar gyfer monitro'r olchfa gan y gofawlwr tŷ i gael ei rhoi ar waith yn ddyddiol.</p> <p>Polisi safonau glanhau newydd, a lanswyd ym mis Ionawr 2018, yn cael ei</p>	<p>Pennaeth Nyrsio / Metron yr Adran Argyfyngau</p>	<p>Chwefror 2018</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Yr holl gadeiriau olwyn i fod yn addas at y diben.</p> <p>Angen adfer y tanc dŵr sy'n gostwng.</p>		<p>ymgorffori i ymarfer.</p> <p>Cyfarfu'r Pennaeth Nyrsio â metron yr Adran Argyfyngau ar 20 Rhagfyr 2017 yn amlinellu'r disgwyliadau a'r safonau yn glir.</p> <p>Cynhaliwyd adolygiad o'r Weithdrefn Glanhau Cadeiriau Olwyn Cludo. Diwygio'r weithdrefn erbyn 31 Ionawr 2018 i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwirio am ddifrod • Eu hatal rhag cael eu defnyddio ar unwaith • Labelu 'peidiwch â defnyddio' a nodi'r difrod • Lle i'w storio • Wrth bwy y dylid adrodd am ddifrod <p>Chwefror 2018: Gofynnwyd am ddiweddariad ar y broses hon</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Chwefror</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Mae metron yr Adran Argyfyngau wedi adrodd diffygion i'r ystadau ym mis Rhagfyr 2017 ac Ionawr 2018 (gwaith adferol). Mae'r tanc dŵr yn gweithio ond mae'r un diffyg i'w weld dros amser ac mae ystadau'n adolygu newid y tanc yn llwyr.		2018
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob oergell sy'n cynnwys meddyginiaethau ar draws safleoedd y bwrdd iechyd wedi'i chloi pan nad yw'n cael ei defnyddio'n uniongyrchol gan staff.</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ocsigen yn cael ei ragnodi'n briodol yng nghofnodion y cleifion ac y caiff ei nodi yng nghofnodion gweinyddu meddyginiaethau'r cleifion.</p>	2.6 Rheoli meddyginiaethau	<p>Wedi archebu oergelloedd â chloeon ar gyfer ardal prif anafiadau a mân anafiadau.</p> <p>Yn y cyfamser, symud i'r ardal ddadebru.</p> <p>Mae rhagnodi yn briodol mewn ardaloedd clinigol - mae ocsigen yn cael ei ragnodi ar gerdyn 'cas' (sy'n fecanwaith addas). Lle bo penderfyniad i gofrestru'r claf, defnyddir y daflen driniaeth i gleifion mewnol - eitem ar yr agenda ACTION fis Chwefror 2018 ar gyfer cyfarfod llywodraethu'r Adran Argyfyngau.</p> <p>Archwilio cydymffurfiaeth â Hysbysiad Diogelwch Cleifion 015 a Hysbysiad</p>	Pennaeth Nyrzio / Metron	Mawrth 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Diogelwch Cleifion 030 ar waith ar draws gofal eilaidd y dwyrain mewn ardaloedd cleifion.</p> <p>Adolygiad wythnosol o feddyginiaeth a gaiff ei storio yn yr adran gan ddefnyddio offeryn i archwilio'r rheolaeth o feddyginiaethau a'r trefniadau ar gyfer eu storio'n ddiogel a gymeradwywyd gan y bwrdd iechyd.</p> <p>Cynnal adolygiad eang o'r cyfleusterau ar gyfer storio meddyginiaethau gan fwrdd yr ysbyty, gan gynnwys oergelloedd, a chyflwyno safonau newydd.</p>	Cyfarwyddwr Fferylliaeth	Mawrth 2018
Mae angen i'r bwrdd iechyd werthuso'r systemau presennol ar gyfer cyfeirio cleifion at y gwasanaeth y tu allan i oriau a chymryd camau gweithredu fel bo'r angen i hybu asesiad amserol o gleifion eraill yn ystod y cyfnod brysbennu.	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol	<p>Cyfarfod wedi'i drefnu i drafod ail-ddylunio'r system a'r broses gyda bwriad y bydd staff y tu allan i oriau yn casglu a throsglwyddo cleifion i ardal briodol.</p> <p>Sefydlu cyfarfod misol rhwng metron yr Adran Argyfyngau a metron y</p>	Metron yr Adran Argyfyngau / Metron y Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau	Mawrth 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gwasanaeth y tu allan i oriau. Angen diweddariad.		
Mae angen i'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff i gynnwys yr amser y nodir cofnodion cleifion a chyflwyno strategaethau priodol i fonitro'r maes hwn o ran cadw cofnodion i sicrhau ymarfer cadarn a chynhwysfawr.	3.5 Cadw cofnodion	Bydd dogfennaeth archwilio yn cael ei chwblhau (yn fisol) i sefydlu llinell sylfaen o ran cyfathrebu a mesurau gwella - bydd hyn yn parhau tan fydd y safon yn gwella yna symud i drefniant bob chwe mis.	Pennaeth Nyrsio / Metron	Chwefror 2018
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu cynllun gweithredu i AGIC yn gwerthuso'n glir sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â diffygion staff yn yr Adran Argyfyngau yn Ysbyty Maelor Wrecsam.	Llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Mae 7.2 swydd nyrsio wag cyfwerth ag amser cyflawn mewn gwirionedd – mae'r gweddill ar absenoldeb mamolaeth. Ymgyrch hysbysebu i recriwtio a chadw staff yn Ysbyty Wrecsam Maelor ar gyfer y safle aciwt. Mae'r strategaeth cadw yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> Rhaglen diwtora Hyfforddiant mewnwythiennol a phwmp ar gyfer nyrsys cofrestredig 	Pennaeth Nyrsio / Metron	Ar waith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>asiantaeth (i gynnwys ANTT)</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnal cyfweiliadau ag israddedigion ddwywaith y flwyddyn i benodi mewn ymateb i geisiadau penodol ar gyfer swyddi yn yr Adran Argyfyngau Cynnal grŵp gorchwyl a gorffen bob pythefnos Ad-drefnu a chwblhau adolygiad o'r sefydliad i benodi i rolau penodol gyda hysbyseb wedi'i pharatoi ar gyfer ymarferydd nyrso argyfwng yn yr Adran Argyfyngau <p>Cynllun recriwtio a chadw wedi'i atodi.</p>		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn cael arfarniad blynyddol yn amserol.	7.1 Y gweithlu	<p>Mae cydymffurfiaeth â'r broses o gynnal adolygiadau datblygiad personol blynyddol (PADR) yn yr Adran Argyfyngau yn 67% ar hyn o bryd.</p> <p>Rhaglen ar waith i gwblhau'r holl adolygiadau datblygiad personol</p>	Metron yr Adran Argyfyngau	Diwedd Mawrth 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		blynyddol.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Mrs Julie Ann Smith

Swydd: Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio (Ysbyty Maelor Wrecsam)

Dyddiad: 2 Chwefror 2018